Cynnal dogfennau greoedd

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal dogfennau greoedd.

Bydd angen eich bod yn gallu gweithio gydag uwch aelod o'r staff i gynnal cofnodion o'r fath, datrys unrhyw wahaniaethau o ran gwybodaeth a throsglwyddo gwybodaeth berthnasol i eraill, fel y bo'n briodol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi gwybodaeth glir a chywir at ddibenion cofnodi
2. cynnal dogfennau greoedd
3. datrys unrhyw wahaniaethau mewn gwybodaeth a hysbysu'r person dynodedig ynghylch y rhain
4. cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol
5. datgelu gwybodaeth briodol i'r cleient, yn unol ag arfer da presennol y diwydiant.

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. diben dogfennau greoedd a pham y mae cywirdeb yn bwysig
2. y mathau o gofnodion sydd eu hangen
3. y polisïau ar ddatgelu gwybodaeth
4. y feddalwedd gyfrifiadurol berthnasol i gynorthwyo'r gwaith o gadw dogfennau greoedd
5. gofynion cofrestru cesig, meirch ac ebolion
6. terminoleg contract greoedd yn cynnwys telerau, ffioedd, dulliau talu a ffurflenni enwebu
7. cofnodion brechu, swabio a chofnodion gofal iechyd arferol eraill
8. y ddeddfwriaeth yn ymwneud â dogfennau greoedd.

## Geirfa

Mathau o gofnodion:

- milfeddygol
- gof
- cael gwared â llyngyr
- pryfocio a chyplu
- caeau bychain
- dyddiaduron
- pasbortau
- microsglodion
- siartiau
- llyfrau pryfocio
- dyddiadau bwrw ebol
- cofrestriadau
- ffurflenni enwebu

Cynnal dogfennau greoedd

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq331 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; gre; gofal |